# Astudiaeth Achos

## Mynediad at gyllid

Ysgol Gynradd Trimsaran

Trimsaran, Sir Gaerfyrddin

Ysgol cyfrwng Cymraeg



*Ffigur 1: Mynedfa i'r ysgol. ©Ysgol Gymunedol Trimsaran*

## Cefndir

Ysgol Gymraeg mewn ardal wledig gyda 195 o ddisgyblion yw Ysgol Trimsaran. Mae'r ysgol yn wynebu tagfeydd traffig a heriau diogelwch sylweddol, yn enwedig yn ystod oriau brig yr ysgol.

Oherwydd diffyg mannau croesi diogel yn y pentref gwneir defnydd trwm o geir gan fod rhieni'n betrusgar o adael i'w plant gerdded, sgwtera neu seiclo i'r ysgol.

## Arweiniad y gymuned

Roedd cyfranogiad cynnar trigolion a Chanolfan Hamdden Trimsaran, ynghyd â thaith gerdded gyda pheirianwyr y Cyngor i nodi lleoliadau allweddol ac uwchraddiadau posibl i lwybrau troed a mannau croesi, yn hanfodol wrth fireinio syniadau cychwynnol yn gynllun lleol. Bu'r cydweithredu hwn yn help i lunio digwyddiadau ymgynghori penodol, i sicrhau bod y cynllun yn cyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau'r gymuned.



## Elfennau allweddol

Roedd gweithredu cynllun teithio llesol yn allweddol o ran nodi cyfres o gamau gweithredu a helpodd i adeiladu'r achos dros gael cyllid. Dyma rai o'r camau:

- Arolwg i gasglu data sylfaenol am ymddygiad a rhwystrau teithio.
- Cyflwyniad i'r ysgol gan y Cynghorydd Sir ar y berthynas rhwng teithio a'r amgylchedd.
- Cofnod byr yng nghylchlythyr y pentref i hysbysu'r gymuned ehangach am y cynlluniau i sicrhau y gall mwy o bobl ddilyn arferion teithio llesol yn yr ardal.
- Digwyddiadau beicio dan nawdd yr ysgol i hyrwyddo teithio llesol, fel her flynyddol Sustrans 'Big Walk and Wheel', ac eraill i godi arian.

## Canlyniadau

Rhoddwyd cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i'r cynllun datblygu ar ôl ymgorffori sylwadau a phryderon o du'r ysgol a'r gymuned a gafodd eu mireinio wedyn gan swyddogion technegol Cyngor Sir Gâr.

Bydd y cynllun yn cefnogi teithio llesol ac amlfoddol ac yn cynnwys:

- Elfennau tawelu traffig ar y B4308.
- Mannau croesi i gysylltu â chyrchfannau allweddol fel y siop leol, canolfan hamdden Trimsaran a'r ysgol.
- Mesurau atal parcio y tu allan i'r ysgol.

## Dyfyniad

**"Rydyn ni'n credu mai dull cyfannol o hybu teithio llesol sy'n arwain at y canlyniadau gorau. [...] Drwy ymgysylltu'n llwyddiannus, gallwn nodi ymyriadau a chynlluniau posibl sy'n debygol o hyrwyddo a hybu mathau o deithio llesol a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."**

*- Tîm Teithio Llesol Cyngor Sir Caerfyrddin*